# CYNGOR SIR CEREDIGION

## GWYBODAETH I RAI SY'N TALU'R TRETHI 2024-2025

**Ymholiadau post i:**
Cyllid a Chaffael
Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3UE

☎ 01970 633253
Ebost **revenues@ceredigion.gov.uk**

## CRYNODEB Y GYLLIDEB 2024-2025



Ar 29/02/24, pennodd Cyngor Sir Ceredigion ei gyllideb ar gyfer 2024/25 ar £193.572m sydd wedi arwain at godiad o 11.1% yn Nhreth y Cyngor. Mae'r codiad hwn yn cynrychioli codiad o 10.0% ar gyfer Gwasanaethau craidd y Cyngor ac 1.1% pellach er mwyn ariannu cynnydd yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2024/25. Mae'r cynnydd at ddibynion y Cyngor Sir (gan gynnwys yr ardoll Tan) yn golygu bod eiddo Band D yng Ngheredigion yn talu £1,726.05 - cynnydd o £172.45 (Mae hyn yn gyfwerth a £3.32 ychwanegol yr wythnos)

Cyfrifoldeb bob Awdurdod Lleol cyfansoddol yn y rhanbarth yw'r gwaith o ariannu Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer ei weithredu, gyda phob un yn ysgwyddo cyfran gymesur yn seiliedig ar boblogaeth. Mae'r cyfraniad sydd ei angen gan Gyngor Sir Ceredigion (a elwir yn Ardoll Tân) wedi codi o £4.856m yn 2023/24 i £5.440m yn 2024/25 (a cynnydd o 12.0%). Yn wahanol i gost Plismona sy'n Braesept ac a ddangosir ar wahân ar eich bil Treth y Cyngor, mae'r Ardoll Tân yn rhan o Gyllideb £193.572m y Cyngor. Mae mwy o wybodaeth am y Gwasanaeth Tân ar gael yn www.mawwfire.gov.uk.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn agored mai ei Chyllideb ar gyfer 24/25 yw'r "un fwyaf cyfyng a phoenus ers datganoli". Yn dilyn cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 07/02/24 mae Ceredigion dal ond yn derbyn cynnydd o 2.8% yn ei gyllid craidd (14eg o blith y 22 Awdurdod Lleol). Dyma felly yw Cyllideb fwyaf cyfyng Cyngor Sir Ceredigion hyd yn hyn ac mae'n waeth nag a ragwelwyd yn flaenorol.

Mae'r Cyngor hefyd yn casglu Treth y Cyngor ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys (codiad o 6.2%) a'r Cynghorau Tref a Chymuned (codiad cyfartalog o 9.1%). Yn gyffredinol, cynyddodd bil Treth y Cyngor ar gyfer eiddo band D 10.25% (mae hyn yn cyfateb i £3.76 yr wythnos yn ychwanegol ar gyfer aelwydydd Band D).

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer Cynghorau bob blwyddyn. Mae Asesiad o Wariant Safonol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2024/25 yn £186.4m.

Mae rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf gwerth cyfanswm o £59.1m wedi'i chynllunio ar gyfer 2024/25 (£87.2m ar gyfer cyfnod y rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn 2024/25 – 2026/27).

## CYD-DESTUN Y GYLLIDEB




Mae'r heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wedi'u gosod yng nghyd-destun yr heriau economaidd cenedlaethol ehangach y mae'r Deyrnas Unedig gyfan yn eu hwynebu.

Cyfanswm y pwysau o ran costau a wynebir gan y Cyngor ar gyfer 2024/25 yw £18m, sy'n cyfateb i ffactor chwyddiant penodol i Geredigion o 10%. Mae hyn yn cymharu â chwyddiant cyffredinol o 4% (ffigur CPI Ionawr 2024). Felly bu angen dod o hyd i ddiffyg yn y gyllideb o £14m o gyfuniad o Arbedion o £7.3m yn y Gyllideb ac ystyriaethau Treth y Cyngor.

Yn gyffredinol, nid yw'r meysydd lle gwelir pwysau o ran Costau yn unigryw i Geredigion. Maent yn amrywio o Ddyfarniadau Cyflog uwch

na'r arfer (a bennwyd yn genedlaethol) i chwyddiant Contractau i gynnydd yng nghostau'r ardoll Tân.   Mae'r galw ar gyllidebau sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol yn parhau i gynyddu'n sylweddol, mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cofrestredig yng Ngheredigion yn derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol (sydd wedi codi o £10.90 i £12.00 yr awr – cynnydd o 10.1%).

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn ar 14/12/23 i gynyddu premiymau Treth y Cyngor y gellir eu codi ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Tymor Hir, roedd angen cydbwyso'r awydd i neilltuo holl arian premiymau Treth y Cyngor gyda sefyllfa ehangach y Gyllideb a'r gallu i leihau baich Treth y Cyngor ar holl drigolion Ceredigion. O ganlyniad, mae'r **Cynllun Tai Cymunedol newydd** yn parhau i fod ar gael i gefnogi preswylwyr yng Ngheredigion gyda llwybr at berchen cartref (mae rhagor o fanylion ar gael o dan y pennawd https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/tai/y-cynllun-tai-cymunedol-rhannu-ecwiti/, mae hwn yn cael ei ariannu gan 25% o arian Premiwm Treth y Cyngor. Mae'r 75% sy'n weddill o arian Premiwm Treth y Cyngor yn cynorthwyo gyda sefyllfa'r gyllideb gyffredinol er mwyn lleihau'r hyn a fyddai wedi bod yn fwy o faich o ran Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.



# TRETH Y CYNGOR

**Beth yn hollol y mae elfen y Cyngor Sir o Dreth y Cyngor yn talu amdano?**

Mae Treth y Cyngor yn dreth gyffredinol sy’n seiliedig ar werth eiddo ac nid yw’n gweithredu ar sail Gwasanaeth talu a defnyddio. Bydd preswylwyr yn gweld ac yn defnyddio gwahanol wasanaethau’r Cyngor ar wahanol adegau yn eu bywydau:

- Bydd hyn yn dechrau gyda chofrestru genedigaeth ac yna’n symud ymlaen i gynnwys darparu a chludo i addysg Feithrin, Cynradd ac Uwchradd ac addysg Ôl-16 - boed hynny’n addysg chweched dosbarth neu’n hyfforddiant galwedigaethol. Darperir hefyd Wasanaethau Cerdd a Gwasanaethau Ieuenctid.
- Fel oedolyn, gall hyn gynnwys defnyddio canolfannau Chwaraeon, defnyddio Llyfrgell, cerdded llwybr Arfordir Ceredigion (a hawliau tramwy cyhoeddus eraill), cofrestru i bleidleisio mewn Etholiad, cyflwyno cais Rheoliadau Cynllunio neu Adeiladu, bwyta mewn sefydliadau bwyd diogel a rheoledig, mynychu Amgueddfa neu Theatr y Cyngor, casglu eich sbwriel (ac yna ei waredu neu ei ailgylchu), defnyddio safle Gwastraff Cartref, gyrru ar Briffyrdd a Phontydd a gaiff eu cynnal a’u cadw (gan gynnwys graeanu’r ffyrdd dros y gaeaf), defnyddio gwasanaeth Bws cyhoeddus, goleuadau stryd ynghynn ar eich stryd a’r gallu i alw’r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn argyfwng.
- Yn ddiweddarach, bydd preswylydd yn elwa o brisiau tocynnau teithio rhatach, ond yn y pen draw efallai y bydd angen mynediad at wasanaethau Gofal a Chymorth (gan ddefnyddio staff gofal cymdeithasol gwerthfawr sy’n derbyn cyflog sydd o leiaf yn Gyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru). Gall hyn gynnwys cefnogaeth a chyfarpar er mwyn gallu byw’n Annibynnol, gofal yn y cartref a lle mewn Cartref Gofal Preswyl. Gall hefyd gynnwys, yn y pen draw, Gwasanaeth y Crwner o bosib a chofrestru marwolaeth.

## DADANSODDIAD CYLLIDEB

### Beth mae pob Gwasanaeth yn ei gostio?


Mae'r Cyllidebau ar gyfer pob Gwasanaeth wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| Gwasanaethau | 2024/25 Rheoladwy Gwasanaeth Cyllidebau £'000 | Ychwanegu Dyraniadau Mewnol/ Talidau Cyfalaf £'000 | Llai Ad-daliadau Mewnol £'000 | 2024/25 Cyllideb Net y Cyngor Sir (gan gynnwys Ardollau) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol | 6,673 | 1,228 | (6,388) | 1,513 |
| Gwasanaethau Democrataidd | 5,187 | 800 | (3,430) | 2,557 |
| Yr Economi ac Adfywio | 3,724 | 3,227 | (4,176) | 2,775 |
| Cyllid a Chaffael | 21,417 | 1,455 | (23,649) | (777) |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 20,025 | 7,102 | - | 27,127 |
| Cyfreithiol a Llywodraethu | 1,691 | 215 | (1,259) | 647 |
| Pobl a Threfniadaeth | 2,413 | 310 | (2,024) | 699 |
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | 2,518 | 687 | (175) | 3,030 |
| Porth Cymorth Cynnar | 4,066 | 4,669 | - | 8,735 |
| Porth Cynnal | 38,720 | 3,690 | - | 42,410 |
| Porth Gofal | 17,537 | 3,139 | - | 20,676 |
| Ysgol a Diwylliant | 58,068 | 14,227 | - | 72,295 |
| Grŵp Arweiniol | 5,454 | 352 | - | 5,806 |
| Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn | 6,079 | - | - | 6,079 |
| | 193,572 | 41,101 | (41,101) | 193,572 |

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Atodiad 3 adroddiad y Gyllideb a ystyriwyd gan y Cyngor Llawn ar 29/02/24 - Cyngor Sir Ceredigion Agenda Cyngor ar Dydd Iau, 29ain Chwefror, 2024, 10.00 am



Gellir dangos y costau uniongyrchol y gellir eu rheoli o ran Gwasanaethau'r Cyngor (ac eithrio unrhyw ailddyrannu o ran y Gwasanaethau Cymorth neu daliadau cyfalaf megis Dibrisio) ar gyfer 2024/25 fel hyn:




Bydd 75% o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gydol Oes, a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol. Ar ôl darparu ar gyfer costau sefydlog (ar y cyfan) eraill (sef Lwfansau'r Aelodau, Ardoll yr Awdurdod Tân, Costau Ariannu Cyfalaf a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor), mae hyn yn gadael dim ond 14% (£27.2m) ar gyfer holl Wasanaethau eraill y Cyngor.

*Gwneir Addasiadau ar gyfer y rhain:*

* *yn cynnwys Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir (o'r Grŵp Arweiniol), Ffioedd Cyfreithiol (o Gyfreithiol a Llywodraethu) a Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (o Bobl a Threfniadaeth)*

** *yn cynnwys PFI Penweddig (o Gyllid a Chaffael)*

# Mae’r Cyngor yn disgwyl gwario ar y gwasanaethau yma yn 2024-2025

| | CYLLIDEB 2024-2025 | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau** | **Gwariant Gros £000's** | **Incwm £000's** | **Grantiau £000's** | **Gwariant Net £000's** |
| Ysgolion a Dysgu Gydol Oes | 90,158 | 12,836 | 4,911 | 72,411 |
| Porth Cymorth Cynnar | 18,280 | 1,860 | 7,685 | 8,735 |
| Cyllid a Chaffael | 16,152 | 599 | 15,166 | 387 |
| Gwasanaethau Democrataidd | 2,558 | 1 | 0 | 2,557 |
| Pobl a Threfniadaeth | 999 | 38 | 262 | 699 |
| Porth Cynnal | 58,435 | 13,790 | 1,779 | 42,866 |
| Porth Gofal | 27,490 | 6,320 | 0 | 21,170 |
| Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd | 3,572 | 273 | 269 | 3,030 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 36,056 | 5,774 | 2,019 | 28,263 |
| Economi ac Adfwyid | 7,765 | 3,351 | 1,346 | 3,068 |
| Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh | 1,529 | 16 | 0 | 1,513 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 730 | 83 | 0 | 647 |
| Grŵp Arweiniol | 6,557 | 0 | 0 | 6,557 |
| **Cost Gwasanaethau'r Cyngor Sir** | **270,281** | **44,941** | **33,437** | **191,903** |
| Cyfraniadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn | (12,014) | | | (12,014) |
| Darpariaeth wrth Gefn | 249 | | | 249 |
| Gwariant Cyfalaf a godir ar y Gronfa Gyffredinol | 7,802 | | | 7,802 |
| **Ardollau a Phraeseptau Tref a Chymuned:** | | | | |
| Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | 5,440 | | | 5,440 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru - Cors y Borth | 12 | | | 12 |
| Praeseptau Cynghorau Tref a Chymuned | 1,547 | | | 1,547 |
| **Gofyniad Cyllideb (gan gynnwys Praeseptau Cynghorau Tref a Chymuned)** | **273,317** | **44,941** | **33,437** | **194,939** |
| Ychwanegu: Gostyngiad Trethi Annomestig | 180 | | | 180 |
| Wedi tynnu: Praeseptau Cynghorau Tref a Chymuned | 1,547 | | | 1,547 |
| **Cyllideb Net y Cyngor Sir gan gynnwys Ardollau** | **271,950** | | | **193,572** |
| **Ariennir gan:** | | | | |
| Grantiau Penodol | 33,437 | | | |
| Incwm Arall | 44,941 | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 135,286 | | | 135,286 |
| **I'w Gwrdd Gan: Talwyr Treth y Cyngor** | **58,286** | | | **58,286** |

Mae CRONFEYDD WRTH GEFN yn angenrheidiol i gwrdd ag ymrwymiadau hysbys yn y dyfodol a hefyd i ariannu gwariant cyn cael incwm. Mae cronfeydd wrth gefn hefyd yn ddymunol i gwrdd â gwariant annisgwyl neu ddiffyg incwm. Mae balansau amcangyfrifedig cronfeydd wrth gefn y Cyngor fel a ganlyn:

| | Balans a Amcangyfrifir 31.03.2024 £000's | Balans a Amcangyfrifir 31.03.2025 £000's |
|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn wedi'u Clustnodi | 34,326 | 22,312 |
| Cronfa Gyffredinol | 6,714 | 6,714 |
| Cyfanswm | **41,040** | **29,026** |

Mae Treth y Cyngor sylfaenol yn daladwy mewn perthynas ag anheddau Band 'D', tra bod ffracsiwn o'r swm hwn yn daladwy ar gyfer anheddau mewn bandiau eraill.
Dangosir Treth gros y Cyngor sy’n daladwy at ddibenion y Cyngor Sir a Heddlu Dyfed-Powys gyferbyn:-



| Band | Gwerth Annedd o<br>£ | Gwerth Annedd hyd at<br>£ | Rhan o'r Dreth Sylfaenol | Cyngor Ceredigion<br>£ c | Heddlu Dyfed-Powys<br>£ c |
|---|---|---|---|---|---|
| A | - | 44,000 | 6ed/9 | 1,150.70 | 221.35 |
| B | 44,001 | 65,000 | 7fed/9 | 1,342.48 | 258.25 |
| C | 65,001 | 91,000 | 8fed/9 | 1,534.27 | 295.14 |
| D | 91,001 | 123,000 | 9fed/9 | 1,726.05 | 332.03 |
| E | 123,001 | 162,000 | 11eg/9 | 2,109.62 | 405.81 |
| F | 162,001 | 223,000 | 13eg/9 | 2,493.18 | 479.60 |
| G | 223,001 | 324,000 | 15fed/9 | 2,876.75 | 553.38 |
| H | 324,001 | 424,000 | 18fed/9 | 3,452.10 | 664.06 |
| I | 424,001 | - | 21ain/9 | 4,027.45 | 774.74 |

Mae eitemau arbennig ychwanegol yn ddyledus i archebiannau Cynghorau Tref/Cymuned fel a gwelir ar y rhestr isod:

| EITEMAU ARBENNIG TRETH Y CYNGOR 2024-2025 | | | |
|---|---|---|---|
| Tref neu Gymuned | Archebiant 2023-2024<br>£ c | Archebiant 2024-2025<br>£ c | Treth y Cyngor (Band D)<br>£ c |
| Aberystwyth | 578,990.00 | 635,275.00 | 151.58 |
| Aberaeron | 42,592.00 | 46,824.00 | 58.24 |
| Aberteifi | 85,735.05 | 90,022.00 | 47.96 |
| Llanbedr Pont Steffan | 39,000.00 | 43,000.00 | 42.64 |
| Cei Newydd | 16,876.29 | 38,260.00 | 45.00 |
| Borth | 23,467.00 | 34,599.69 | 43.80 |
| Ceulanamaesmawr | 16,000.00 | 16,000.00 | 36.56 |
| Blaenrheidol | 4,525.00 | 4,706.00 | 22.43 |
| Genau'r Glyn | 9,500.00 | 10,000.00 | 27.22 |
| Llanbadarn Fawr | 43,281.00 | 49,281.00 | 55.17 |
| Llangynfelin | 7,000.00 | 8,250.00 | 29.48 |
| Llanfarian | 14,700.00 | 22,700.00 | 29.30 |
| Llangwyryfon | 3,668.00 | 4,500.00 | 17.17 |
| Llanilar | 7,000.00 | 7,200.00 | 14.77 |
| Llanrhystud | 8,600.00 | 11,600.00 | 24.98 |
| Melindwr | 7,000.00 | 7,500.00 | 13.94 |
| Pontarfynach | 3,500.00 | 3,500.00 | 13.69 |
| Tirymynach | 19,500.00 | 19,500.00 | 23.64 |
| Trawsgoed | 5,200.00 | 5,200.00 | 11.36 |
| Trefeurig | 13,000.00 | 18,000.00 | 22.41 |
| Faenor | 33,427.00 | 33,812.00 | 40.84 |
| Ysgubor-y-Coed | 3,500.00 | 3,850.00 | 22.92 |
| Llanddewi Brefi | 9,500.00 | 14,400.00 | 46.83 |
| Llangeitho | 5,500.00 | 5,500.00 | 14.62 |
| Lledrod | 2,321.00 | 2,553.00 | 7.93 |
| Nantcwnlle | 2,200.00 | 2,500.00 | 6.56 |
| Tregaron | 22,000.00 | 25,000.00 | 44.40 |
| Ysbyty Ystwyth | 3,000.00 | 2,500.00 | 11.49 |
| Ystrad Fflur | 7,213.00 | 7,574.00 | 23.89 |
| Ystrad Meurig | 2,184.52 | 2,410.66 | 14.00 |
| Ciliau Aeron | 6,000.00 | 6,000.00 | 13.89 |
| Henfynyw | 7,000.00 | 7,000.00 | 13.25 |
| Llanarth | 9,481.50 | 10,903.73 | 14.54 |
| Llandysiliogogo | 10,267.92 | 12,834.90 | 22.69 |
| Llainfair Clydogau | 3,500.00 | 7,000.00 | 23.03 |
| Llanfihangel Ystrad | 9,950.00 | 9,950.00 | 14.44 |
| Llangybi | 4,000.00 | 4,600.00 | 15.96 |
| Llanllwchaearn | 11,340.00 | 11,566.80 | 22.84 |
| Llansantffraed | 24,000.00 | 28,000.00 | 43.77 |
| Llanwenog | 15,000.00 | 15,000.00 | 25.08 |
| Llanwnnen | 3,465.00 | 3,568.95 | 16.20 |
| Dyffryn Arth | 14,720.00 | 14,550.00 | 24.12 |
| Aberporth | 41,100.00 | 46,298.66 | 39.32 |
| Beulah | 25,000.00 | 25,000.00 | 27.98 |
| Llandyfriog | 15,000.00 | 26,000.00 | 30.10 |
| Llandysul | 47,758.48 | 50,737.14 | 39.72 |
| Llangoedmor | 30,000.00 | 32,400.00 | 53.45 |
| Llangrannog | 10,500.00 | 10,500.00 | 23.16 |
| Penbryn | 12,000.00 | 12,500.00 | 16.00 |
| Troedyraur | 11,000.00 | 12,000.00 | 17.48 |
| Y Ferwig | 24,600.00 | 24,600.00 | 36.47 |
| **Cyfanswm** | **1,375,662.76** | **1,547,027.53** | |

# TRETHI ANNOMESTIG

## Nodiadau Esboniadol

Mae'r wybodaeth isod yn esbonio rhai o'r termau a welwch chi'n aml ar fil am ardrethi annomestig ac yn yr wybodaeth sydd gyda'r bil. Cewch fwy o wybodaeth ynglŷn â'r rheidrwydd i dalu ardrethi annomestig gan yr awdurdodau bilio.

## Yr Ardrethi Annomestig

Caiff y trethi annomestig eu casglu gan yr awdurdodau bilio a'u talu i mewn i gronfa ganolog. Yna maen nhw'n cael eu hailddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chomisiynwyr yr heddlu a throseddau. Bydd y cyngor a chomisiynwyr yr heddlu a throseddau'n defnyddio eu cyfran nhw o incwm yr ardrethi, ynghyd ag incwm treth y cyngor, y grant cynnal refeniw sy'n dod gan Lywodraeth Cymru a rhai symiau neilltuol o ffynonellau eraill, i dalu am y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Cewch ragor o wybodaeth am system yr ardrethi annomestig, gan gynnwys y gostyngiadau a'r rhyddhad sydd ar gael yma: https://businesswales.gov.wales/

## Gwerth Ardrethol:

Mae gwerth ardrethol eiddo annomestig yn cael ei bennu, yn y rhan fwyaf o achosion, gan swyddog prisio annibynnol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac mae honno'n Asiantaeth Weithredol o Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC). Maen nhw'n llunio ac yn cadw rhestr lawn o werth ardrethol pob eiddo annomestig yng Nghymru, ac mae honno ar gael ar eu gwefan: www.gov.uk/government/organisations/valuation-office-agency. Fel arfer caiff pob eiddo annomestig ei ailbrisio bob 5 mlynedd. O 1 Ebrill 2023 ymlaen bydd gwerth ardrethol eiddo'n hafal i'w werth fel rhent blynyddol ar y farchnad agored ar 1 Ebrill 2021.

Ar gyfer eiddo cymysg sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, mae'r gwerth ardrethol yn ymwneud â'r rhan annomestig yn unig. Mae gwerth pob eiddo mae ardrethi'n daladwy amdanynt i'ch awdurdod chi i'w gweld ar y rhestr ardrethi lleol. Cewch weld copi ohoni yn y swyddfeydd canlynol:  Swyddog Rhestru Asiantaeth y Swyddfa Brisio i Cyngor Sir Ceredigion, Swyddog Rhestru Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Durham Customer Service Centre, Wycliffe House, Green Lane, Durham, DH1 3UW

neu Gyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UE.

## Ailbrisio

Caiff pob gwerth ardrethol ei ailasesu trwy ailbrisiad cyffredinol i sicrhau bod yr ardrethi sy'n cael eu talu gan unrhyw drethdalwr unigol yn adlewyrchu'r newidiadau yng ngwerth eu heiddo dros amser o'i gymharu ag eraill. Mae hyn yn helpu sicrhau tegwch yn y system ardrethu drwy ddiweddaru'r prisiadau'n unol â'r newidiadau yn y farchnad. Daw'r rhestr ardrethi bresennol i rym ar 1 Ebrill 2023 ac mae wedi ei seilio ar y gwerthoedd fel yr oeddynt ar 1 Ebrill 2021.
Yn ystod y flwyddyn y bydd yr ailbrisio'n weithredol, caiff y lluosydd ei ailosod er mwyn rhoi cyfrif am y newidiadau cyffredinol i gyfanswm y gwerth ardrethol ac i sicrhau na fydd yr ailbrisio'n codi arian ychwanegol.

## Newid y gwerth ardrethol

Fe allai'r gwerth ardrethol newid petai'r swyddog prisio o'r farn bod amgylchiadau'r eiddo wedi newid. Gall y trethdalwr (a rhai eraill neilltuol sydd â diddordeb yn yr eiddo), gynnig newid yng ngwerth yr eiddo hefyd o dan rai amgylchiadau.  Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â sut mae mynd ati i gynnig newid y gwerth ardrethol gan y swyddfeydd prisio.

## Lluosydd yr ardrethi annomestig

Dyma'r gyfradd yn y bunt a gaiff ei defnyddio i luosi'r gwerth ardrethol er mwyn cyfrifo bil treth blynyddol yr eiddo. Caiff y lluosydd ei osod gan Weinidogion Cymru ar gyfer Cymru gyfan.

## Cynigion ac apeliadau

Mae gwybodaeth ynglŷn â phryd ac o dan ba amgylchiadau y mae rhywun yn cael cynnig newid i'r gwerth ardrethol a sut mae gwneud cynnig o'r fath ar gael gan y swyddfa brisio leol.  Mae mwy o wybodaeth am y trefniadau apelio ar gael gan Gyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE neu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.
Mae Tribiwnlys Prisio Cymru'n cynnig gwasanaeth apeliadau annibynnol yn rhad ac am ddim ar gyfer apeliadau ynghylch yr Ardrethi Annomestig a Threth y Cyngor.  Dyma'r manylion cyswllt: http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/home.html

## Ardrethi eiddo gwag

Gall perchnogion eiddo annomestig gwag fod yn agored i dalu ardrethi am eiddo gwag sy'n cael eu codi ar 100 y cant o’r atebolrwydd arferol. Mae’r atebolrwydd yn dechrau ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 3 mis, neu, yn achos adeiladau diwydiannol, ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 6 mis. Mae mathau penodol o eiddo'n cael eu heithrio o dalu ardrethi ar eiddo gwag.

## Rhyddhad elusennol a rhyddhad yn ôl disgresiwn

Mae hawl gan elusennau a chlybiau chwaraeon cymunedol amatur i ryddhad o 80% o ardrethi ar unrhyw eiddo annomestig—

(a) yn achos elusennau, os yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu’n bennaf at ddibenion elusennol, neu

(b) yn achos clybiau, os yw’r clwb wedi’i gofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Mae gan yr awdurdodau bilio ddisgresiwn i beidio â chodi rhan neu’r cyfan o’r 20 y cant sy’n weddill o’r bil ar eiddo o’r fath. Caiff hefyd roi rhyddhad ar eiddo sy'n cael ei feddiannu gan gyrff penodol nad ydynt wedi’u sefydlu nac yn cael eu rhedeg i wneud elw.

I gael mwy o wybodaeth ynglŷn âchlybiau cysylltwch â: Charities, Savings and International 2, HM Revenues and Customs, BX9 1BU, Y Deyrnas Gyfunol. (Y wefan: http://www.hmrc.gov.uk).

## Rhyddhad ardrethi i fusnesau bach

O dan Orchymyn Ardrethi Annomestig (Rhyddhad i Fusnesau Bach) Cymru 2015 ( ) mae modd rhoi rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. Mae'r manylion llawn, gan gynnwys y meini prawf o ran cymhwysedd, yr eithriadau, y gofynion gweithdrefnol a phob rhyddhad ardrethi perthnasol ar gael gan yr awdurdod bilio.

## Rhyddhad cyfradd trosiannol

Mae Rheoliadau Trethiant Annomestig (Symiau Trethadwy) (Cymru) 2022 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhyddhad trosiannol i fusnesau, ac sydd wedi’u heffeithio’n andwyol gan ailbrisiad yr eiddo annomestig sy’n dod i rym o 1 Ebrill 2023. Mae’r rhyddhad hwn yn berthnasol am 2 flynedd hyd at 31.03.2025. Mae manylion llawn gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd, yr eithriadau, y gofynion gweithdrefnol a’r rhyddhad cyfradd perthnasol ar gael gan yr awdurdod bilio.

## Ardrethi Annonestig – Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Hghymru – 2023/24

Nod y cynllun yw darparu cymorth i eiddo cymwys sydd wedi'i feddiannu drwy gynnig 75% o ostyngiad ar filiau ardrethi annomestig ar gyfer eiddo o'r fath. Bydd y cynllun ar gael i bob busnes cymwys, fodd bynnag bydd uchafswm i swm y rhyddhad y caiff busnesau ei hawlio ar draws Cymru. Cyfanswm y rhyddhad sydd ar gael yw £110,000 ar draws yr holl eiddo sy'n cael eu defnyddio gan yr un busnes. Mae angen i bob busnes ddatgan nad yw swm y rhyddhad y maent yn gwneud cais amdano ar draws Cymru yn fwy na'r uchafswm wrth wneud cais i awdurdodau lleol unigol.

Wefan:- [https://businesswales.gov.wales/cy/ardrethi-annomestig-rhyddhad-ardrethi-manwerthu-hamdden-a-lletygarwch-2024-25](https://businesswales.gov.wales/cy/ardrethi-annomestig-rhyddhad-ardrethi-manwerthu-hamdden-a-lletygarwch-2024-25)

